



PRIFYSGOL
BANGOR
UNIVERSITY

POLISI ASESU RISG

Dyddiad	Pwrpas y Cyhoeddiad / Disgrifiad o'r Newid	Asesiad Effaith Cydraddoldeb wedi ei gwblhau
21 Mai 2009	Cyhoeddiad cyntaf	
14 Tachwedd 2018	Adolygu	
16 Chwefror 2023	Adolygwyd a chymeradwywyd gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau	14 Tachwedd 2018, adolygwyd Chwefror 2023

Swyddog Polisi	Uwch Swyddog sy'n Gyfrifol	Cymeradwywyd gan	Dyddiad
Pennaeth Iechyd a Diogelwch	Prif Swyddog Gweithredu	Pwyllgor Iechyd a Diogelwch	21/05/2009

Caiff y polisi hwn ei adolygu nesaf yn 2026

1. RHAGARWEINIAD

Nid yw'r gyfraith yn disgwyl i bob risg gael ei dileu ond mae'n mynnu bod cyflogwyr yn amddiffyn pobl, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol' rhag niwed.

Mae asesiadau risg yn gam pwysig i sicrhau iechyd, diogelwch a lles staff, myfyrwyr ac eraill y mae gweithgareddau'r Brifysgol yn effeithio arnynt.

Mae Aseidiadau Risg hefyd yn cynorthwyo'r Brifysgol, ei Cholegau a Gwasanaethau Proffesiynol, i ganolbwyntio ar y risgiau hynny'n sy'n wirioneddol bwysig yn y gweithle - y rhai a all achosi niwed gwirioneddol - a sicrhau na chaiff unrhyw un ei anafu na mynd yn sâl o ganlyniad i'w gwaith neu eu hastudiaethau.

2. DATGANIAD POLISI A'I GWMPAS

Polisi Prifysgol Bangor, cyn belled ag y bo'n ymarferol bosib, ac yn unol â'r gofynion statudol perthnasol ac arferion da, yw sicrhau iechyd a diogelwch staff, myfyrwyr ac ymwelwyr â'r brifysgol.

Mae'r polisi hwn yn nodi polisi'r Brifysgol ar Aseidiadau Risg a dylid ei ystyried fel y safon meincnodi ar gyfer pob asesiad risg cyffredinol a'r asesiadau risg penodol hynny nad ydynt wedi'u cynnwys mewn polisiau, canllawiau neu reolaeth ddeddfwriaethol manylach eraill.

Mae'r Polisi yn nodi dyletswyddau a chyfrifoldebau'r Brifysgol a'i Cholegau, Gwasanaethau Proffesiynol, staff, myfyrwyr, gwirfoddolwyr ac eraill.

Mae'r polisi'n berthnasol i'r canlynol:

- Pob coleg a gwasanaeth proffesiynol.
- Staff, Myfyrwyr a Gwirfoddolwyr.
- Pob gweithgaredd lle mae risg sylweddol bosibl o niwed, anaf neu ddifrod.

Nid yw'r Polisi yn ystyried:

- Unrhyw ddigwyddiad y tu allan i reolaeth neu ddylanwad y Brifysgol a'i Cholegau a Gwasanaethau.

3. POLISIAU CYSYLLTIEDIG A'R DDEDDFWRIAETH

Yn ogystal â gofynion cyffredinol y Ddeddf Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle etc., mae gan y Brifysgol, a'r Colegau a Gwasanaethau Proffesiynol sy'n perthyn iddi, ymrwymadau penodol yn unol â'r Rheoliadau Rheoli Iechyd a Diogelwch yn y Gwaith i weithredu dulliau rheoli cadarn sy'n ceisio osgoi a rheoli risgiau fel y diogelir iechyd, diogelwch a lles staff ac eraill y mae gweithgareddau'r Brifysgol yn effeithio arnynt.

4. DIFFINIADAU / TERMINOLEG

At ddibenion y polisi hwn defnyddir y diffiniadau canlynol:

- Aseiad Risg Archwiliad gofalus o beth, trwy eich gwaith neu yn eich gweithle, a allai achosi niwed i bobl, fel y gellwch bwysu a mesur p'run a oes gennych ddigon o ragofalon neu a ddylech wneud mwy i atal niwed.
- 'Perygl': Perygl yw unrhyw beth a all achosi niwed (salwch neu anaf), e.e. cemegau, trydan, gweithio ar ysgolion, gyrru, cynnal arolygon cymdeithasol.
- 'Risg': yw'r posibilrwydd, p'un a fyddo'n fach neu'n fawr, i rywun gael niwed o'r perygl, a difrifoldeb niwed o'r fath pe bai'n digwydd.
- 'Niwed': Anaf neu salwch.

- 'Ymarferol Resymol': Pwyso a mesur y gost o'i chymharu â'r fantais, h.y. cloriannu'r risg yn erbyn y gwaith, yr amser a'r arian sydd eu hangen i'w reoli.

5. DYLETSWYDDAU'R BRIFYSGOL

Yn unol â Pholisi Iechyd a Diogelwch y Brifysgol, mae'r cyfrifoldeb rheolaethol o ddydd i ddydd dros iechyd a diogelwch wedi ei ddirprwyo i bob coleg a gwasanaeth proffesiynol. Eu cyfrifoldeb nhw yw gweithredu gofynion y polisi a'r canllawiau cysylltiedig.

6. CYFRIFOLDEBAU COLEGAU /GWASANAETHAU PROFFESIYNOL

Mae angen i bob Coleg a Gwasanaethau Proffesiynol gyflwyno a monitro systemau er mwyn cyflawni'r canlynol, cyn belled ag y bo'n ymarferol resymol:

- Sicrhau iechyd a diogelwch staff a myfyrwyr tra yn y gwaith/wrth astudio;
- Sicrhau y cynhelir asesiadau risg gan bobl gymwys i nodi peryglon a risgiau sylweddol, asesu'r risgiau sy'n deillio o'r rhain a phennu'r rheolaethau sydd eu hangen i reoli risg i'r lefel isaf sy'n ymarferol resymol i bawb sy'n gysylltiedig â'r gweithgaredd a/neu y gallent gael eu heffeithio ganddo.
- Sicrhau bod rheolaethau pellach a nodir yn ystod asesiadau risg yn cael eu cynllunio a'u gweithredu;
- Sicrhau bod canfyddiadau asesiadau risg ac unrhyw fersiynau wedi'u diweddarau yn cael eu cyfleu i staff a myfyrwyr priodol a chael gwared ar fersiynau hen.
- Sicrhau, yn dilyn asesiad risg, bod staff a myfyrwyr yn cael gwybodaeth, cyfarwyddyd a hyfforddiant digonol, fel bo'r angen, i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch yn y gwaith / wrth astudio (mae hyn yn cynnwys staff dros dro a staff sy'n ymweld).
- Sicrhau bod staff a myfyrwyr yn rhoi gwybod i'w coleg / gwasanaeth am bryderon ynglŷn ag iechyd a diogelwch.
- Sicrhau yr ymchwilir i holl bryderon am iechyd a diogelwch ac y gweithredir i ddatrys unrhyw broblemau lle bo'r angen.
- Sicrhau y cedwir cofnodion o holl asesiadau risg a chynlluniau gweithredu.
- Sicrhau yr adolygir asesiadau risg ar adegau addas, e.e. yn flynyddol neu lle mae rheswm dros amau nad yw'r asesiad risg yn ddilys bellach, gyda manylion am yr adolygu (hynny yw, cedwir rhifau'r fersiynau).
- Rhoi gwybod i ddefnyddwyr eraill yr adeilad (yn cynnwys cwmnïau eraill sy'n gweithio yno) am wybodaeth hanfodol ar iechyd a diogelwch a pharatoi cynlluniau a dulliau gweithredu addas ar gyfer argyfwng.

7. DYLETSWYDDAU STAFF, MYFYRWYR AC ERAILL

Fel y cyfrifoldebau a roddir ar y Brifysgol, a'i Cholegau a Gwasanaethau Proffesiynol, mae gan bob aelod staff a myfyriwr gyfrifoldeb yn unol â'r gyfraith a'r Polisi Iechyd a Diogelwch i wneud y canlynol:

- Cymryd gofal rhesymol dros eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac unrhyw rai eraill y gall eu gweithredoedd, neu eu diffyg gweithredu, effeithio arnynt.
- Cydymffurfio â chyfarwyddyd a hyfforddiant a roddir i sicrhau eu hiechyd a'u diogelwch eu hunain ac eraill.
- Defnyddio a chydymffurfio â mesurau rheoli, yn cynnwys systemau gweithio'n ddiogel a dulliau gweithredu'n ddiogel, sydd wedi eu darparu i leihau risgiau i'r eithaf.

- d. Peidio â chamdefnyddio, difrodi nac ymyrryd ag unrhyw beth a ddarparwyd er budd iechyd a diogelwch.
- e. Rhoi gwybod yn syth i'w Rheolwr Llinell / Darlithydd ac ati (fel bo'n briodol) am unrhyw bryderon / broblemau'n ymwneud ag iechyd a diogelwch, e.e. offer rheoli ddim yn gweithio, offer wedi'i niweidio, neu unrhyw gyflyrau iechyd anffafriol.
- f. Lle bo'n briodol, gwneud yn ddiogel unrhyw offer sy'n achosi risg sylweddol ac uniongyrchol i iechyd a diogelwch.

8. ASESIAID EFFAITH CYDRADDOLDEB

Rhaid gwneud pob ymdrech drwy'r asesiad risg i gefnogi unigolion fel eu bod yn cael eu trin yn gyfartal. Ond mewn rhai achosion prin iawn, efallai y bydd angen trin 'pobl sydd â nodwedd warchoddedig' yn wahanol er mwyn diogelu eu hiechyd, eu diogelwch a'u lles hwythau. Caiff unrhyw ystyriaethau o'r fath eu trafod gyda'r unigolyn a chytunir ynglŷn ag addasiadau rhesymol.

Nodir y dylid defnyddio asesiadau risg iechyd a diogelwch i alluogi staff a myfyrwyr i ymgymryd â'u tasgau yn ddiogel ac nid fel trefn i atal gweithgaredd am fod elfen o risg yn bodoli. Dylid gwneud pob ymdrech i gefnogi staff a myfyrwyr i'w galluogi i ymgymryd â'u tasgau yn yr un modd â'u cyfoedion.

9. CANLLAWIAU PELLACH

Mae'r Tafenni Gwybodaeth a'r canllawiau canlynol ar gael i alluogi Colegau / Gwasanaethau Proffesiynol i fodloni gofynion y Safon Polisi hon:

- Sut i Gynnal Asesiad Risg
- Ffurflen Asesu Risg
- Asesiadau Risg Enghreifftiol ar gyfer amrywiaeth o weithgareddau.
- Templed Asesiad Risg Coleg / Gwasanaeth Proffesiynol (Trosolwg).

10. GWEITHDREFNAU ADOLYGU AC ARCHWILIO

Gall Iechyd a Diogelwch a Gwasanaethau Campws gynnal archwiliadau neu adolygiadau achlysurol i asesu effeithiolrwydd a chydymffurfiaeth â'r polisi hwn.

Rhaid i'r colegau/gwasanaethau proffesiynol adolygu eu dulliau gweithredu eu hunain o bryd i'w gilydd, i sicrhau bod gofynion y polisi hwn yn cael eu gweithredu, a'u bod yn addas ac yn effeithiol.

Bydd y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn adolygu'r polisi hwn yn unol â'r amserlen adolygu y cytunwyd arni, a bydd Bwrdd Gweithredol y brifysgol yn ystyried unrhyw newidiadau sylweddol.

Diwedd.